

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	Gorffennaf 13eg 2016
TEITL	Datblygiadau Solar
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Cyflwynir yr Adroddiad hon yn dilyn cais gan yr Aelodau yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar Dachwedd y 18fed 2015.
- 1.2 Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau solar, gwybodaeth am geisiadau cynllunio yn ardal Llŷn a'r diweddaraf am y taliadau am gynhyrchu trydan trwy ddull adnewyddol solar.

2.0 LLEIHOU ALLYRIANNAU CARBON

- 2.1 Yn sgil rheoliadau'r yr Undeb Ewropeaidd mae rhwymedigaeth ar Llywodraeth y DU i leihau llygredd aer. Un o'r dulliau mwyaf effeithiol o wneud hynny yw trwy gau pwerdai ynni confensiynol (glo, olew, nwy) a chael mwy o drydan o ffynonellau adnewyddol fel dŵr, gwynt, biomass a solar.
- 2.2 Mae paneli solar yn defnyddio golau'r haul i greu trydan sy'n adnewyddadwy. Er nad oes cyfnodau maith o haul yn y Deyrnas Unedig mae'r paneli yn effeithiol ac mae eu prisiau wedi gostwng fel mae technoleg wedi gwella a phris cynhyrchu wedi lleihau.
- 2.3 Er mwy annog pobol a chwmnïau felly i ddatblygu ynni adnewyddol bu i'r llywodraeth sefydlu taliadau o'r enw y "Feed In Tariff" oedd yn cynnig taliadau sefydlog am ynni adnewyddol am gyfnodau maith o amser (20 mlynedd fel arfer). Mae na gynlluniau tebyg mewn llawer o wledydd y byd.
- 2.4 Daeth y cynllun i rym ym Mhrydain yn 2010 ac roedd yn boblogaidd iawn. O ganlyniad bu twf mewn cwmnïau arbenigol oedd yn cynhyrchu a gosod offer ynni adnewyddol ac yn arbennig tyrbinau gwynt a paneli solar. Bu cynnydd hefyd o ran y technegau eraill – pypiau aer, pypiau tir, biomass ayb.

3.0 DATBLYGIADAU SOLAR YN LLŷN

- 3.1 Fel yn y rhannau eraill o'r DU bu cryn ddiddordeb mewn datblygiadau ynni adnewyddol yn Llŷn. Gwnaed nifer o geisiadau cynllunio am offer solar i mewn leoliadau yn yr AHNE neu yn weddol agos i'r ffin. Yn y blynyddoedd cynnar paneli solar ar dai neu adeiladau amaethyddol oedd gan amlaf ond yn ddiweddar derbyniwyd nifer o geisiadau am ffermydd solar ar dir amaethyddol.
- 3.2 Mae gan ffermydd solar o'r math yma, sydd dros arwynebedd eithaf eang o dir, y potensial i gael effaith sylweddol ar dirlun ag amgylchedd yr ardal.

3.3 Mae'r Atodiad yn cynnwys gwybodaeth am geisiadau am ddatblygiadau ynni solar yn ardal Llŷn dros y blynyddoedd diwethaf.

4.0 NEWIDIADAU MEWN TALIADAU

4.1 Roedd y cynllun grant yn boblogaidd iawn ac roedd y cynllun yn costio yn sylweddol i'r Llywodraeth.

4.2 O ganlyniad i hyn lleihawyd y taliadau i ddatblygiadau ynni adnewyddol, yn cynnwys solar yn Awst 2011, Mawrth 2012, 2013, 2014, 2015 a 2016. Mae'r wybodaeth isod yn dangos sut mae taliadau wedi eu gostwng am ddatblygiadau solar (ceiniog am bob kw):

	2010	2016
Solar PV ar dai – 4kw neu lai	43.11c	12-5.73c
Solar PV hefo gallu cynhyrchu mwy na 250kw	35.07c	5.73c

4.3 Daeth y cynllun FIT's i ben yn Ionawr 2016 a daeth cynllun newydd i rym. Mae'r cynllun newydd yn wahanol ac mae'n cynnig taliadau sylweddol is.

5.0 CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

5.1 Mae datblygiadau ynni adnewyddol wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli presennol fel un o'r materion all gael effaith sylweddol ar harddwch y tirlun a'r arfordir.

5.2 Ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun mae Ynni Solar wedi ei adnabod fel un o'r pynciau llosg o ran Tirlun ac Arfordir ac mae polisi penodol wedi ei gynnwys ar y mater. Gellir trafod y polisi hwn pan yn ystyried yr adroddiad ar y Cynllun Rheoli.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Derbyn yr wybodaeth.